



Newyddlen Gwasanaethau Anabledd

Llawr Gwaelod Isaf, Neuadd Rathbone, Ffordd y Coleg, Bangor.

Ffôn: 01248 383620 / 382032

E-bost: gwasanaethanabledd@bangor.ac.uk

Mai 2019 - Rhifyn 51

Y Gwasanaethau Anabledd ar y rhestr fer am Wobr Addysgu dan Arweiniad Myfyrwyr

Mae'r Gwasanaethau Anabledd wedi cyrraedd y rhestr fer am Wobr Addysgu dan Arweiniad Myfyrwyr yn y dosbarth Gwobr i Adran o'r Gwasanaethau Myfyrwyr. Isod gwelir y rhai sydd wedi'u henwebu i'r rhestr fer i dderbyn gwobr. Cynhelir y digwyddiad ddydd Gwener 3rd Mai.

Pob lŵc i pawb.

Canolfan Asesu

Christina Amor - Mentor

Rhian Graham - Tiwtor Dyslecsia

Fiona Zinovieff - Tiwtor Dyslecsia



Yn y rhifyn hwn

Y Gwasanaethau Anabledd ar y rhestr fer am Wobr Addysgu dan Arweiniad Myfyrwyr.....	1
Yn y rhifyn hwn.....	2
Gwasanaeth Sgiliau a Chyflogadwyedd	3
Tîm Dyslecsia Cefnogaeth Arbenigol gyda Sgiliau Astudio	5
Tîm Dyslecsia Sesiynau Galw-i-mewn	6
Slipiau Melyn ar gyfer arholiadau.....	6
Y Ganolfan Sgiliau Astudio	7
Croeso.....	7
Sesiwn Galw Heibio Cyngorwyr Anabledd	8
Iechyd Meddwl.....	9
Gwasanaeth Cwnsela Myfyrwyr - Croeso i Endaf	10
Gwasanaeth Cyngori.....	11
Big White Wall	12
Strategaeth Iechyd Meddwl	13
Swyddfa Tai Myfyrwyr	14
Cofiwch gymeradwyo taflen amser eich gweithiwr cynnal.....	15
Gyllid Myfyrwyr 2019/20	15
Myfyrwyr israddedig blwyddyn olaf: gwiriwch eich HEAR a GCB!.....	16
Gwasanaeth Gyrfaedd a Chyflogadwyedd.....	17
Graddio Gorffennaf 2019	18
Eisiau fod yn Arweinydd Cyfoed ym mis Medi?	20
1 - 7 Ebrill - Wythnos Derbyn Awtistiaeth a gynhelir gan y gymdeithas seicoleg, psychsoc....	21
Ein Manylion Cyswllt	23

Gwasanaeth Sgiliau a Chyflogadwyedd



**Cyflawni drwy
Brofiad Gwaith**
**Achieve through
Work Experience**



Ydych chi'n dechrau eich trydedd flwyddyn ym mis Medi? Os felly, mae'n amser da i ddechrau meddwl am brofiad gwaith.

- Ydych chi'n wynebu rhwystrau mewn perthynas ag anabledd?
- Oes gennych chi wahaniaeth dysgu penodol e.e. dyslecsia, dyspracsia, anhwylder diffyg canolbwytio a gorfywigrwydd (ADHD)?
- Gennych chi anhawster iechyd meddwl?

Hoffech chi gael help gyda dod o hyd i brofiad gwaith perthnasol er mwyn datblygu eich sgiliau cyflogadwyedd? Ydych chi'n 24 oed neu iau? Os felly, mae'r Cyngorwyr Project GO Wales yma i helpu.



gowales@bangor.ac.uk
01248 382578
www.gowales.co.uk
Neuadd Rathbone

CEFNOGAETH SGILIAU ASTUDIO ARBENIGOL UN-I-UN

Ar gyfer myfyrwyr gyda Gwahaniaethau Dysgu Penodol.

Darperir y gefnogaeth drwy'r flwyddyn, gan diwtoriaid cymwys a chofrestredig sy'n rhan o'r Tîm Dyslecsia mewnol yn y Gwasanaethau Anabledd ym Mhrifysgol Bangor.

Bydd staff croesawus yno bob tro byddwch yn ymweld â'n Derbynfâ.



Ystafelloedd unigol un-i-un penodol sy'n darparu lle cyfforddus a chyfrinachol. Mae gan bob ystafell ddwy sgrin gyfrifiadurol, gliniadur (*laptop*) a mynediad at dechnoleg gynorthwyol, digon o le ar ddesg, golau y gellir ei newid er mwyn gwneud yr ystafell yn oleuach neu'n dywyllach, amrywiaeth o gymhorthion dysgu aml-synhwyraidd, bwrdd gwyn, ac mae dŵr yfed wedi'i hidlo ar gael gerllaw.

Ystafell aros gyfforddus lle gall myfyrwyr eistedd ar ôl cyrraedd, ac edrych drwy amrywiaeth o daflenni gwaith strategaethau astudio ac adnoddau eraill sy'n cael eu harddangos. Mae'r adnoddau hyn ar gael i fyfyrwyr fynd â nhw gyda nhw fel bo'r angen.



Mae gan diwtoriaid sgiliau i gefnogi myfyrwyr i ymgorffori'r defnydd o dechnoleg gynorthwyol yn ystod eu hastudiaethau.

Yn y llun hwn, mae Dylan yn dangos sut i ddefnyddio'r Pen LiveScribe.

Tîm Dyslecsia Cefnogaeth Arbenigol gyda Sgiliau Astudio

Mae cefnogaeth sgiliau astudio arbenigol yn cynnig cyfle i chi weithio un-i-un gyda thiwtor sgiliau astudio i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen i astudio'n effeithiol.

- Mae gennym diwtoriaid sgiliau astudio arbenigol sy'n arbenigo mewn cynnig cefnogaeth gyda mathemateg, ystadegau a'r Gymraeg.
- Gall eich tiwtor sgiliau astudio eich helpu i werthuso eich cryfderau a'ch dulliau astudio presennol a'ch cefnogi mewn meysydd a all fod yn fwy o her i chi. Byddant yn cyflwyno amrywiaeth o strategaethau i chi i wella eich dysgu, megis:
 - **Sgiliau Rheoli Amser a Threfnu**
 - **Rhifedd:**
 - Cymorth gydag iaith fathemategol.
 - Deall pynciau ariannol a chysyniadau ystadegol.
 - Defnyddio cymhorthion cyfrifiannu, rhaglenni TG a chyfrifianellau.
 - **Sgiliau Darllen Ymchwil ac Academaidd:**
 - Technegau darllen yn effeithlon.
 - Strategaethau ar gyfer dewis gwybodaeth.
 - Technegau crynhoi, gwneud nodiadau a chymryd nodiadau.
 - Defnyddio'r llyfrgell yn effeithiol.
 - **Sgiliau ysgrifennu:**
 - Trefnu a saernïo eich syniadau.
 - Saernïo dadleuon a mynegi syniadau.
 - Sgiliau sillafu, gramadeg ac atalnodi.
 - Saernïo brawddegau a pharagraffau, aralleirio.
 - Sgiliau golygu a phrawf-ddarllen.
 - **Sgiliau cyflwyno.**
 - **Strategaethau adolygu:**
 - Strategaethau dysgu ar gof.
 - Technegau arholiadau.

Cysylltwch â ✉ 121dyslecsia@bangor.ac.uk os hoffech archebu sesiwn.

Tîm Dyslecsia Sesiynau Galw-i-mewn

Tîm Dyslecsia Sesiynau Galw-i-Mewn

Bob diwrnod gwaith yn ystod y tymor, dechrau **24 Medi** rhwng **12:00 a 13:00**, mae'r Tîm Dyslecsia'n cynnig gwasanaeth i fyfyrwyr sydd wedi cofrestru â'r gwasanaeth.

- ◊ **Dydd Llun** - cefnogaeth 1:1 arbenigol gyda sgiliau astudio cyffredinol.
- ◊ **Dydd Mawrth** - cefnogaeth 1:1 arbenigol gyda sgiliau astudio cyffredinol.
- ◊ **Dydd Mercher** - cefnogaeth 1:1 arbenigol gyda sgiliau astudio cyffredinol.
- ◊ **Dydd Iau** - cefnogaeth 1:1 arbenigol gyda sgiliau astudio cyffredinol drwy gyfrwng y **Gymraeg neu'r Saesneg**.
- ◊ **Dydd Gwener** - cefnogaeth 1:1 arbenigol gyda sgiliau astudio cyffredinol yn cynnwys



Rhowch wybod i Gemma neu Tracey eich bod wedi dod ar gyfer **sesiwn galw-i-mewn** a byddant yn eich cyfeirio at y tiwtor penodol.

Chwefror 2019

Slipiau Melyn ar gyfer arholiadau

Cofiwch fynd a **chopi papur o'ch Slipiau Melyn i bob un o'ch arholiadau** sydd i ddod.

Bydd angen i chi atodi un i bob un o'ch llyfrynnau ateb arholiad.

Mae copiau papur o'r Slipiau Melyn ar gael yn Nerbynfa Gwasanaethau Anabledd, Llawr Gwaelod Isaf, Adeilad Rathbone.

Gan ddymuno pob llwyddiant i chi yn eich arholiadau.

Y Ganolfan Sgiliau Astudio

Rydym yn cynnig apwyntiadau un-i-un, gweithdai a chefnogaeth gyda mathemateg ac ystadegau.

I drefnu apwyntiad am gymorth un-i-un gydag ysgrifennu, neu i gael cefnogaeth gyda mathemateg neu ystadegau, ewch i'n [gwefan](#).

I gael rhagor o wybodaeth neu gyngor, cysylltwch â ni:

Gwefan:

<https://www.bangor.ac.uk/studyskills/index.php.cy>

✉ sgiliauastudio@bangor.ac.uk

☎ 01248 38 2689

Neu chwiliwch amdanom ar [Facebook](#) ac [Twitter](#).

Croeso

Rydym yn falch iawn o groesawu Teresa Critchlow i'n tîm gweinyddol yn y Gwasanaethau Anabledd.

Mae Teresa wedi bod ar staff Prifysgol Bangor ers amser maith gan ddechrau gweithio yma nôl ym mis Medi 1989 fel un o'r staff glanhau yn Undeb y Myfyrwyr. Mae wedi gweithio'n galed dros y 29 mlynedd ddiwethaf, ac wedi cael ei dyrchafu amryw o weithiau. Yn ystod y cyfnod hwn mae wedi gweithio fel derbynnydd i Undeb y Myfyrwyr, gweinyddwr yng Nghanolfan Gyngori UyM, ac am y 6 blynedd ddiwethaf mae wedi bod yn rhan o'r tîm Cefnogi Myfyrwyr, gan weithredu fel derbynnydd a chydlynu digwyddiadau a chyfarfodydd. Mae'r Gwasanaethau Anabledd yn gyfarwydd iddi, gan ei bod wedi gweithredu yn lle staff eraill ar brydiau yn y Ganolfan Asesu, gan drefnu apwyntiadau ar gyfer asesiadau diagnostig.

Mae Teresa'n siarad Cymraeg yn rhugl ac mae'n edrych ymlaen at helpu myfyrwyr yn y Gymraeg a'r Saesneg.



Teresa

Sesiwn Galw Heibio Cynghorwyr Anabledd

Lle:

Ystafell Gyfarfod 2, Llawr Gwaelod, Adeilad Rathbone, Ffordd y Coleg

Pryd:

Dyddiau Mawrth 12.00 - 1.00pm yn ystod y tymor

Cynghorwyr Anabledd:

Ruth Coppell a Stephanie Horne

Ar gyfer pwy?

Unrhyw fyfyrwr sydd ag ymholiad sy'n gysylltiedig ag anabledd neu sydd angen rhywfaint o gyngor ar fater sy'n ymwneud â'r brifysgol.

A allaf drefnu apwyntiad i weld rhywun yn ystod y sesiwn galw heibio?

Does dim angen apwyntiad. Bydd myfyrwyr yn cael eu gweld ar sail gyntaf i'r felin. Fodd bynnag, os hoffech drefnu apwyntiad i gwrdd ag ymgynghorydd ar adeg arall, anfonwch e-bost at: gwasanaethanabledd@bangor.ac.uk, neu ffoniwch: 01248 383620 / 382032



Iechyd Meddwl

Mae Cheryl Parkinson a Fiona Rickard, Ymgynghorwyr Iechyd Meddwl Prifysgol Bangor, wedi ymuno ag Undeb y Myfyrwyr Bangor i gynnig nifer o sesiynau galw i mewn i fyfyrwyr. Y newydd da yw ein bod, fel rhan o'n partneriaeth, wedi cael ystafell o faint da yn union wrth ymyl y Dderbynfa. Mae'r ystafell yn hawdd mynd iddi ac yn rhoi preifatrwydd.



Sesiynau Galw Heibio ar gyngor Iechyd Meddwl

- **Lle?** Pontio, Undeb Myfyrwyr, Lefel 4
- **Pryd?** Dydd Mercher 2yh-4yh dechrau
1 Mai - 29 Mai 2019

Gallai hyn fod yn addas i chi ...

- Os ydych yn pryderu am eich iechyd meddwl?
- Os hoffech gael sgwrs gyda Chynghorydd Iechyd Meddwl i drafod eich pryderon?
- Os ydych chi eisiau gwybod am y gefnogaeth sydd ar gael?
- Os ydych chi'n teimlo'n fwyfwy pryderus ac yn poeni am hynny?
- Os ydych yn colli cwsg oherwydd eich pryder?
- Os ydych o dan straen oherwydd arholiadau neu oherwydd eich astudiaethau?
- Os ydych yn poeni am ffrind neu am rywun sy'n rhannu tŷ gyda chi?
- Os ydych chi yn syml lawn eisiau ychydig o amser i gael eich cefn atoch?
- Os ydych chi yn syml lawn eisiau ychydig o amser i gael eich cefn atoch?

Os ydych wedi ateb "Ie" i unrhyw un o'r uchod, croeso i chi alw heibio.

Gwasanaeth Cwmsela Myfyrwyr - Croeso i Endaf

Mae'r Gwasanaeth Cwmsela wedi croesawu aelod newydd llawn-amser i'r tîm cwmsela - Endaf Evans.

Mae Endaf yn gwnselydd integreiddiol, ac mae wedi gweithio fel cwnselydd a hyfforddwr i CAIS yn y gorffennol. Mae ei feysydd arbenigedd yn cynnwys gweithio gyda chleientiaid gyda phroblemau camddefnyddio sylweddau (cyffuriau ac alcohol) a hefyd cleientiaid sy'n gaeth i gamblo, bwyd, pornograffi a rhai sydd â dibyniaeth ar y rhynggrwyd a hapchwarae. Mae ganddo hefyd brofiad o weithio gyda chleientiaid sydd â phroblemau'n ymwneud â HIV/iechyd rhywiol ac mae ganddo brofiad o gynnig arweiniad ym maes gyrfaedd.

Fel Uwch Hyfforddwr/Hwylusydd Grŵp gyda CAIS, bu'n rhedeg nifer o gyrsiau achrededig i Ysgol Dysgu Gydol Oes Prifysgol Bangor ar y cwrs gradd Camddefnyddio Sylweddau.



Endaf

Yn ogystal â'i waith gyda CAIS, mae Endaf hefyd wedi darparu cefnogaeth grŵp a chefnogaeth un-i-un i bobl ifanc 11-21 oed mewn grŵp o'r enw Viva, grŵp cefnogi i bobl ifanc LHDT+ yng Nghonwy a Sir Ddinbych, yn ogystal â'r Grŵp LHDT+ GISDA yng Nghaernarfon. Mae wedi gweithio gydag amrywiaeth eang o bobl ifanc, yn cynnwys rhai sy'n cael problemau yn ymwneud ag ailbennu rhywedd a materion traws.

Meddai Endaf: *"Rwy'n falch iawn o gael y cyfle unigryw hwn i weithio gydag amrywiaeth eang o weithwyr proffesiynol a phobl ifanc ym Mhrifysgol Bangor."*

Mae Endaf hefyd yn siarad Cymraeg yn rhugl.

Croeso mawr, Endaf!

Gwasanaeth Cynghori

Prifysgol Bangor

Gwasanaeth Cynghori Myfyrwyr



Ymwybyddiaeth Ofalgar i Fyfrwyr

ar gael bob bore Mawrth am 11.00-11.50yb

Ystafell Cyfarfod, Yr Anecs,

Neuadd Rathbone, Ffordd y Coleg

Mindfulness Meditation for Students

available every Tuesday morning at 11.00-11.50am

Meeting Room, The Annexe,

Neuadd Rathbone, College Road

Ffon/Phone: 01248 388520 Ebst/E-mail: counselling@bangor.ac.uk
www.bangor.ac.uk/student-services/counselling

Bangor University
Student Counselling Service

Prifysgol Bangor

Gwasanaeth Cynghori Myfyrwyr



Darlithoedd Magu Gwytnwch

Mae'r rhaglen yma yn cynnig ochr seico-addysgol ar anawsterau cyffredin i fyfyrwyr megis straen, pryder a hwyliau isel. Derbynnir wybodaeth am natur y testun gan roi gwell dealltwriaeth a bydd modd dysgu strategaethau ymdopi effeithiol.

Pryd: pob dydd Mercher am 1.30yp

Ble: Ystafell Addysgu 1, Llawr Gwaelod, Neuadd Rathbone

Am fwy o wybodaeth, ewch i'n gwefan:

www.bangor.ac.uk/student-services/counselling/events.php.cy

Ffon/Phone: 01248 388520 Ebst/E-mail: counselling@bangor.ac.uk
www.bangor.ac.uk/student-services/counselling

Bangor University
Student Counselling Service

Big White Wall

Mae pobl yn defnyddio'r *Big White Wall* am gymorth gydag amrywiaeth eang o faterion yn ymwneud ag iechyd meddwl a lles - yn amrywio o bryder, iselder, straen a thrawma at broblemau perthynas a heriau ffordd o fyw.

Mae Undeb Bangor wedi ymuno â'r *Big White Wall* er mwyn i bob myfyriwr Bangor, lle bynnag y maent, gael mynediad at amrediad o ffynonellau cymorth at eu hiechyd meddwl.

Mae'r *Big White Wall* yn gwbl ddiennw ac er y gofynnir i chi fewngofnodi trwy ddefnyddio eich enw defnyddiwr Prifysgol Bangor, dim ond er mwyn gwirio eich bod yn fyfyrwr Bangor a bod gennych hawl i fynediad at y gwasanaeth mae hynny. Ni fydd unrhyw un yn gwybod eich bod wedi defnyddio'r gwasanaeth hwn.

Mae cael at y *Big White Wall* yn hawdd - ewch i www.bigwhitewall.com a mewngofnodi gan ddefnyddio'ch enw defnyddiwr Bangor a bydd gennych fynediad i holl wasanaethau'r *Big White Wall*!

24/7 ONLINE & ANONYMOUS SUPPORT FOR MENTAL HEALTH

CEFNOGAETH IECHYD MEDDWL 24/7 AR-LEIN AC YN DDIENW

Mae gwybod fod Big White Wall yno 24/7 yn rhoi tawelwch meddwl imi

Knowing Big White Wall is there for me 24/7 gives me peace of mind

Big White Wall

Cewch gefnogaeth Cymryd rheolaeth Teimlo'n well
Get Support Take Control Feel Better

Strategaeth Iechyd Meddwl

Mae angen eich help arnom!

Rydym yn cydweithio ag Undeb Bangor i ddatblygu Strategaeth Iechyd Meddwl newydd sbon dan arweiniad myfyrwyr ac felly mae arnom angen eich sylwadau. Rhowch wybod i ni sut yr hoffech chi lunio'r strategaeth trwy gwblhau ein harolwg ewch i <https://cy.undebbangor.com/strategaethiechydmeddwl/>

STRATEGAETH IECHYD MEDDWL
MENTAL HEALTH STRATEGY

CWBLHEWCH
HOLIADUR
EIN
HEDDIW!

FILL
IN OUR
SURVEY
TODAY!

[www.undebbangor.com/mentalhealthstrategy](https://cy.undebbangor.com/mentalhealthstrategy)

Swyddfa Tai Myfyrwyr

Mae Swyddfa Tai Myfyrwyr wedi creu rhestr wirio ddefnyddiol gyda'r hanfodion o symud allan o'ch tŷ, i helpu sicrhau eich bod yn cael diwrnod didrafferth:

www.bangorstudentpad.co.uk/Local



Cofiwch gymeradwyo taflen amser eich gweithiwr cynnal

Bydd y darlithoedd yn dod i ben ddydd Gwener, 3 Mai. Cofiwch ymdrin â phob neges e-bost gan Randstad a defnyddio'r system Opus i ystyried unrhyw hawliadau am waith cefnogi sy'n ddyledus. Rydym yn gwybod y gall y cyfnod arholiadau fod yn amser prysur, ond bydd arnom angen prosesu tâl ar gyfer eich gweithiwr cefnogi cyn i bobl ddechrau mynd am adref ar gyfer y gwyliau haf.

Mewn trafferth ariannol yn ystod yr haf?

Mae gan y brifysgol gronfa arbennig i helpu myfyrwyr sy'n wynebu argyfwng ariannol annisgwyl.

Mae'r Gronfa Galedi ar gael i bob myfyriwr sy'n astudio.

I wneud cais cysylltwch â'r Uned Cymorth Ariannol, Llawr 1af, Neuadd Rathbone.

Am ragor o wybodaeth am y gronfa hon ffoniwch neu ewch i weld yr Uned Cymorth Ariannol.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â'r Uned Cefnogaeth Ariannol ar:

☎ 01248 383566 / 383637 ✉ cymorthariannol@bangor.ac.uk

<http://www.bangor.ac.uk/student-services/moneyadvice>



Gyllid Myfyrwyr 2019/20

Os ydych chi'n dychwelyd i'r Brifysgol y flwyddyn nesaf, mae angen i chi wneud cais am gyllid myfyrwyr y flwyddyn nesaf cyn gynted â phosibl. Mae sefydliadau Cyllid Myfyrwyr yn annog myfyrwyr i wneud cais am eu benthyciadau, grantiau a lwfansau ffioedd dysgu a chynnal a chadw ar-lein, cyn eu dyddiadau cau penodedig.

Bydd hyn yn sicrhau eich bod yn derbyn yr arian y mae gennych hawl iddo ar ddechrau'r tymor yn hydref 2019. Gellir llenwi ffurflen PR1 ar-lein neu ei lawrlwytho o'r gwefannau canlynol:

- Myfyrwyr sy'n dod o **Gymru**: www.studentfinancewales.co.uk
- Myfyrwyr sy'n dod o **Loegr**: www.gov.uk/apply-for-student-finance
- Myfyrwyr sy'n dod o **Alban**: www.saas.gov.uk
- Myfyrwyr sy'n dod o **Ogledd Iwerddon**: www.studentfinanceni.co.uk

Os oes angen unrhyw help neu wybodaeth ychwanegol arnoch am y broses ymgeisio, cysylltwch â'r Uned Cefnogaeth Ariannol am arweiniad.

☎ 01248 383566 / 383637

✉ moneysupport@bangor.ac.uk

Myfyrwyr israddedig blwyddyn olaf: gwiriwch eich HEAR a GCB!

Pan fyddwch yn graddio, byddwch yn derbyn adroddiad HEAR gan y Brifysgol sy'n amlinellu eich llwyddiannau, rhai academaidd ac all-gyrsiol. Gallwch wirio pa weithgareddau all-gyrsiol sy'n ymddangos ar eich HEAR personol gan fewngofnodi i'r dudalen Fy HEAR ar yr [Hwb Cyflogadwyedd](#), Fy Bangor.

Bydd rhaid i'ch gweithgareddau gael eu cofnodi ar Fy Hwb Cyflogadwyedd erbyn **5yp, Mai 15fed, 2019**

I newid neu ddileu gwybodaeth o'ch HEAR, gyrrwch e-bost i cyflogadwyedd@bangor.ac.uk cyn **5yp, Mai 15fed, 2019**

Os ydych yn bwriadu cwblhau'r GCB eleni, gadewch i ni wybod gan gwblhau'r ffurflen ar lein ganlynol cyn gynted a phosib: <https://www.bangor.ac.uk/careers/finalists/index.php.cy> (bydd angen mewngofnodi)

Y dyddiad i gwblhau'r GCB ydi **5yp, Mai 15fed, 2019**.

Help a Chymorth

Mae help a chymorth yn defnyddio'r Hwb Cyflogadwyedd a cofnodi gweithgareddau ar gyfer yr HEAR a GCB ar gael. Cysylltwch drwy e-bostio cyflogadwyedd@bangor.ac.uk

Gwasanaeth Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd

GRADDIO ELENÍ?



Gwiriwch eich HEAR

Cwblhewch y GCB

ar Fy Hwb Cyflogadwyedd
my.bangor.ac.uk/cyflogadwyedd
5yh, Dydd Mercher, Mai 15^{fed}



GRADUATING THIS YEAR?

Check My HEAR

Complete the BEA

on My Employability Hub
my.bangor.ac.uk/employability
5pm, Wednesday, 15th May

Gwasnaeth
**Sgiliau a
Chyflogadwyedd**

**Skills &
Employability
Service**

my.bangor.ac.uk/cyflogadwyedd |
my.bangor.ac.uk/employability

cyflogadwyedd@bangor.ac.uk |
employability@bangor.ac.uk



@PBcyflogadwyedd
@BUemployability



GCB – Gwobr Cyflogadwyedd Bangor
BEA – Bangor Employability Award



/gyrfaoeddbangor
/careersbangor

01248 382071
bangor.ac.uk

Gwasanaethau Myfrywr Mawrth 2019 / Student Services March 2019

Graddio Gorffennaf 2019



Mae'r wefan graddio'n awr yn fyw yn: <http://www.bangor.ac.uk/graduation> ac mae'n cynnwys gwybodaeth am y seremonïau, beth i'w ddisgwyl, ble i fynd a beth i'w wneud.

Presenoldeb

Mae angen i'r holl fyfyrwyr sydd â hawl i ddod i'r Seremonïau Graddio roi gwybod i ni erbyn **31 Mai 2019** a fyddant yn dod i'r seremoni neu beidio. Dilynnwch y cyswllt i gofrestru yma.

PWYSIG:

Os ydych yn teimlo y gallech gael anawsterau, yn cynnwys ciwio neu fynd i fyny i'r llwyfan, a fydddech cystal a gysylltu â ni yma yn y Gwasanaeth Anabledd,

✉ gwasanaethanabledd@bangor.ac.uk, fel y gallwn wneud unrhyw drefniadau angenrheidiol.

Cwestiynau a Ofynnir yn Aml:

C: Faint o docynnau a ddyrennir imi?

A: Caiff pob myfyriwr sy'n graddio ac sy'n dymuno mynd i'r seremoni hyd at ddau docyn i westeion am £12 yr un. Nid oes angen tocyn ar fyfyrwyr sy'n graddio. Mae mynediad yr holl westeion i'r seremoni trwy docyn yn unig.

C: A oes arnaf angen tocynnau ar gyfer Plant?

A: Rhaid i blant dan 3 oed (dim mwy na dau i bob myfyriwr) eistedd ar lin oedolyn ac nid ar sedd. Nid oes angen tocyn arnynt. Rhaid i blant 3 oed a hŷn gael tocyn pris llawn i westeion i gael mynd i'r seremoni. Os ydych yn dod â babi sy'n dal mewn pram neu goets fach i'r seremoni, a fydddech cystal â nodi hynny pan fyddwch yn prynu eich tocynnau. Gofynnir i chi a oes angen gwneud unrhyw drefniadau arbennig ar gyfer eich gwesteion. Ein cyngor yw bod plant yn gwyllo'r seremoni o Brif Ddarlithfa'r Celfyddydau, lle nad oes angen tocynnau.

C: Pa mor hir y mae'r Seremoni'n para?

A: Mae'r seremoni'n para am ryw awr a hanner.

C: Beth am y derbyniadau adrannol?

A: Mae'r rhan fwyaf o Ysgolion yn cynnal eu derbyniadau unigol eu hunain, naill ai cyn neu ar ôl y seremoni. Cewch wybodaeth am dderbyniad eich adran yn uniongyrchol trwy eich adran gartref.

C: Efallai caf anhawster i giwio neu fynd ar y llwyfan. Efo pwy dylwn i siarad am hyn?

A: Cysylltwch â'r Gwasanaeth Anableddau fel mater o flaenoriaeth, ☎ (01248) 383620 / 382032 neu ✉ gwasanaethanabledd@bangor.ac.uk

C: Mae fy ngwestai'n anabl, beth ddylwn i ei wneud?

A: Dylech roi nodyn ar y ffurflen gofrestru sydd ar y gwe-dudalennau ynglyn ag unrhyw anghenion arbennig a fo ar eich gwesteion.



GWASANAETHAU MYFYRWYR
STUDENT SERVICES

Published: February 2019
Cyhoeddiwyd: Chwefror 2019

EISIAU FOD YN ARWEINYDD CYFOED YM MIS MEDI?

**ARWEINYDD
CYFOED**  **PEER
GUIDE**

OFFICIAL BANGOR UNIVERSITY
PRIFYSGOL BANGOR SWYDDOGOL

WANT TO BE A PEER GUIDE IN SEPTEMBER?

**CYSYLLTWCH Â NI HEDDIW
GET IN TOUCH TODAY**

E-POST / E-MAIL:
PEERGUIDING@BANGOR.AC.UK

FFÔN / TEL:
01248 388356


PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY
bangor.ac.uk

1 - 7 Ebrill - Wythnos Derbyn Awtistiaeth a gynhelir gan y gymdeithas seicoleg, psychsoc

Yn garedig iawn, mae Michelle Hyde, myfyriwr trydedd flwyddyn Seicoleg, Aeold or Pwyllgor Seicoleg ac Ysgrifennydd Elusen wedi rhoi ei dyddiadur o'r Wythnos Derbyn Awtistiaeth i ni:



Dydd Llun - Dosbarthu pecynnau gwybodaeth am awtistiaeth a mentrau awtistiaeth (dewiswyd yr elusen gan psychsoc). Roedd pobl yn stopio i ofyn cwestiynau am awtistiaeth a'r sgysiau a'r gweithgareddau a oedd yn cael eu cynnal yn ystod yr wythnos. Cafwyd sgwrs gan Dr Judith Roberts, seicolegydd clinigol a darlithydd yn yr Ysgol Seicoleg, a safbwynt myfyriwr gan Sabrina, myfyriwr meistr mewn Seicoleg.

Dydd Mawrth - Gwisgo Aur ar gyfer Diwrnod Awtistiaeth y Byd, a sgwrs gan Michelle, myfyriwr Seicoleg am brofiad o fod yn awtistig.

Dydd Mercher - Diwrnod y synhwyrâu. Gwerthu cacennau ac eitemau celf a chreffft synhwyradd (rhai deunyddiau gan y gymdeithas grefftau), gyda sgwrs gan Claire, myfyriwr Seicoleg gyda safbwynt rhieni o awtistiaeth. Roedd gan y Gwasanaethau Myfyrwyr stondin hefyd i siarad â phobl am beth i'w wneud os ydynt am gael diagnosis, ac ychydig o daflenni gwybodaeth am y Gwasanaethau Myfyrwyr.

Dydd Iau - Eich Diwrnod Gwallt Blêr Gorau a sgwrs am y safbwynt ymchwil gan Dr Tracey Lloyd, darlithydd yn yr Ysgol Seicoleg.

Dydd Gwener - Gwisgo fel eich hoff gymeriad a the prynhawn gyda chacennau a brechdanau.

Dydd Sadwrn - Prynawn o wybodaeth a gweithgareddau gyda sgwrs gan Dr Tracey Lloyd. Roedd yna stondin gwerthu cacennau, taflenni ffeithiol, stondin crefftau synhwyradd, stondin hwdis a stondin y Gymdeithas Saudi. Roedd y Gymdeithas Saudi yn hyrwyddo gwybodaeth ac ymchwil am awtistiaeth. Roeddent hefyd yn trafod pe bai pobl eisiau gwneud ymchwil i awtistiaeth gyda geneteg a/neu seicoleg, yna gallai cyllid fod ar gael.

Cynhaliwyd yr wythnos gyfan yn y brifysgol ac roedd yn agored i bawb yn y brifysgol a thu hwnt. Daeth rhai o'r gymuned leol i drafod y wybodaeth sydd ar gael, ac i ofyn am unrhyw gyngor y gallem ei gynnig iddynt am ddiagnosis, a ble i gael mwy o wybodaeth. Holl bwrpas yr wythnos oedd cael mwy o bobl i dderbyn a bod yn ymwybodol nad yw pawb yr un fath ac y gallai pobl ag anableddau fod angen ychydig o gymorth ychwanegol. Ei nod oedd cael pobl ag anableddau i geisio cael mwy o help a siarad â phobl sydd â'r un diagnosis.

Cododd y digwyddiad £150 ar gyfer Mentrau Awtistiaeth i gefnogi mwy o bobl ag awtistiaeth; yn eu bywydau o ddydd i ddydd neu pan fydd pethau'n dechrau mynd yn drech.

Gwasanaethau Myfyrwyr

Student Services



PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

- Sgiliau a Chyflogadwyedd
- Cymorth Myfyrwyr
 - Tai Myfyrwyr
 - Cymorth Ariannol
 - Iechyd Myfyrwyr
 - Newid/Gadael Eich Cwrs
- Gwasanaethau Anabledd
 - Canolfan Asesu
 - Tîm Anabledd
 - Tîm Dyslecsia
 - Cynghorwyr Iechyd Meddwl
- Gwasanaeth Cynghori
- Gweinyddiaeth Myfyrwyr
- Ennyn Diddordeb Myfyrwyr

- Skills and Employability
- Student Support
 - Student Housing
 - Money Support
 - Student Health
 - Changing/Leaving Your Course
- Disability Services
 - Assessment Centre
 - Disability Team
 - Dyslexia Team
 - Mental Health Advisers
- Counselling Service
- Student Administration
- Student Engagement Unit

www.bangor.ac.uk/studentservices
gwasanaethaumyfirwyr@bangor.ac.uk
studentservices@bangor.ac.uk
01248 382024
Neuadd Rathbone
Ffordd y Coleg / College Road



Ein Manylion Cyswllt

Pennaeth Gwasanaethau Anabledd

Carolyn Donaldson-Hughes

✉ gwasaethanabledd@bangor.ac.uk

Rheolwr Tîm Dyslecsia

Jane Jones

✉ pss204@bangor.ac.uk

Uwch Gynghorwr Anabledd

Esther Griffiths

Cynghorwyr Anabledd Myfyrwyr

Ruth Coppell / Steph Horne

✉ cynghorwrabledd@bangor.ac.uk

Cynghorwyr Iechyd Meddwl

Fiona Rickard / Cheryl Parkinson /

Fiona Hill

✉ cynghorwriechydmeddwl@bangor.ac.uk

Cynghorwyr ADP

Andrea Reynolds / Rafaela Williams

✉ cynghorwrdyslecsia@bangor.ac.uk

Dylan Griffiths

Rheolwr Gwasanaeth Asesu

Asesu Anghenion Astudio

✉ canolfan_access@bangor.ac.uk

Asesu Diagnostic

✉ assessment@bangor.ac.uk

Cydlynnydd Cymorth Anfeddygol

Christine Roberts

✉ gwaithcefnogi@bangor.ac.uk

Gweinyddwr

Tracey Morris

✉ gwasaethanabledd@bangor.ac.uk

Cynorthwydd Gweinyddol

Gemma Watts

✉ gwasaethanabledd@bangor.ac.uk

☎ Gemma neu Tracey ar 01248 383620 / 382032 neu ✉ gwasaethanabledd@bangor.ac.uk i wneud apwyntiad.

Am fanylion am y gwasanaethau a ddarperir gan y Tîm Anabledd ewch at

<http://www.bangor.ac.uk/gwasanaethaumyfirwyr/anabledd>

I wneud apwyntiad gyda'r Gwasanaeth Cynghori, ☎ Helen ar 01248 388520 neu

✉ cynghori@bangor.ac.uk

Os nad ydych am dderbyn copi o'r cylchlythyr chwarterol, anfonwch e-bost at:

gwasaethanabledd@bangor.ac.uk

Gwasanaethau Myfyrwyr -
Cymeradwywyd gan y Corff Achredu Matrix

